# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Mapiau Drafft) (Cymru) 2001**

**Y Cefndir**

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi gweithdrefnau a gofynion ar gyfer paratoi, dyroddi a chadarnhau mapiau drafft o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Mae'r pwyntiau drafftio a nodir isod yn faterion y gall fod angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt. Gan hynny, byddai angen iddynt gael eu cyfeirio at y Gweinidog ar gyfer ei sylwadau yn unol â Rheol Sefydlog 11.4.

Er hynny, ystyrir y gellir cywiro'r pwyntiau hyn drwy gyfrwng memorandwm cywiriadau. Gan hynny, yn amodol ar osod memorandwm cywiriadau, ni fydd angen i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y materion hyn o dan Reol Sefydlog 11.5.

**Rheoliadau 3(8) a 4(1)(a)(b)**

Mae'r ddarpariaeth yn rheoliad 3(8) ar gyfer map darluniadol yn ddarpariaeth ddewisol.

Gofynnir felly sut y gellir ei gwneud yn ofynnol cyflawni'r ddyletswydd yn rheoliad 4(1)(a) a (b) drwy ddyroddi copïau o fap a gynhyrchir o dan reoliad 3(8).

**Rheoliad 6(1)**

Mae hwn yn darparu bod yn rhaid i'r Cyngor ystyried unrhyw sylwadau sy'n dod i'w law <u>os</u> bodlonir gofynion (a) – (d).

Wrth nodi'r rheoliad fel hyn, mae'n rhoi'r argraff ei bod yn gwrth-ddweud adran 5(b) o'r Ddeddf sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried pob sylw a ddaw i law.

Ystyrir y dylid mynegi gofynion (a) – (d), yn unol â'r pwer galluogi yn adran 11(2)(f), yn ffurf gofynion yn ôl y dull y mae'r sylwadau i gael eu gwneud.

Hefyd, tynnwyd mân bwyntiau drafftio at sylw'r cyfreithiwr drafftio.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

27 Tachwedd 2001